



Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr: Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad Monitro Blynyddol 2019

Cyflwyniad

1. Paratowyd yr adroddiad hwn gan yr Arolygydd sy'n gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 01/01/19 tan 31/12/19.
2. Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau troseddwy'r ifanc a gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gydag oedolion a phlant sydd wedi troseddu. Rydym yn gweithredu o'n pencadlys ym Manceinion a'n swyddfa yn Llundain a'n cyllid blynyddol ar gyfer 2019/20 yw £6.24m.
3. Yn ystod 2019, gadawodd un aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg y sefydliad ar ôl cael dyrchafiad i swydd reoli o fewn Tîm Troseddwy'r Ifanc yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth bellach yn cyflogi un uwch reolwr llawn amser sy'n siarad Cymraeg ac Arolygydd sy'n derbyn ffi sy'n siarad Cymraeg.
4. Mae'r sefydliad, o dan arweiniad Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi, wedi ymrwmo i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y cynllun iaith Gymraeg. O dan ein cynllun cymeradwy rydym wedi ymrwmo i sicrhau, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ein harolygiadau yng Nghymru.

Recriwtio

5. Rydym yn parhau i geisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg wrth recriwtio. Rydym wedi diweddarau ein hysbysebion swyddi i'w gwneud yn fwy eglur ein bod yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg ac yn cynnig cyfle i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg drafod eu cais yn Gymraeg. Rydym hefyd yn darparu'r hysbyseb a'r swydd ddisgrifiad yn Gymraeg ac yn parhau i ddefnyddio ein perthynas sefydledig gyda rhanddeiliaid o fewn y sector cyfiawnder yng Nghymru, i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddi gwag.

Cynllunio a darparu gwasanaethau

6. Rydym yn cynllunio ac yn gweithredu arolygiadau yng Nghymru o ran gwaith troseddwy'r ifanc ac oedolion, weithiau ar y cyd ag arolygiaethau perthnasol eraill. Ymhlith y rhain mae Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS). Wrth wneud hynny, rydym yn hyrwyddo ein cynllun iaith Gymraeg ac yn ymwybodol o gynlluniau arolygiaethau eraill.
7. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu o leiaf un Arolygydd Cymraeg fel rhan o'n rhaglenni arolygu craidd i oedolion a phobl ifanc yng Nghymru. Pan fyddwn yn cyhoeddi ein harolygiadau, rydym yn gofyn i asiantaethau sy'n cael eu harolygu i'n

hysbysu ymlaen llaw a fyddai'n well gan unrhyw un o'u defnyddwyr gwasanaeth, staff neu reolwyr strategol gael eu cyfweld yn Gymraeg.

8. Mae ein harolygiadau thematig yn edrych ar feysydd penodol o waith troseddwr ifanc ac oedolion ar draws Cymru a Lloegr. Pan fydd hyn yn cynnwys arolygu maes yng Nghymru, rydym yn gofyn ymlaen llaw hefyd a fyddai'n well gan unrhyw un gael ei gyfweld yn Gymraeg er mwyn i Arolygydd Cymraeg gael ei ddarparu yn ôl yr angen.
9. Mae ein harolygiad craidd o waith troseddwr ifanc ac oedolion yng Nghymru yn cynnwys pwyslais ar ba mor dda y mae'r sefydliad a arolygwyd wedi nodi ac ymateb i'r dewis o gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg. Mae'r trafodaethau sy'n digwydd gyda staff hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cydnabod hawl defnyddwyr gwasanaethau i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg.
10. Gellir cyflwyno gwybodaeth y gofynnwyd amdano gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi cyn arolygiad naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed pob cyflwyniad o'r fath yn Saesneg.

Arolygiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru

11. Rydym wedi cwblhau un arolygiad o wasanaethau prawf yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (CRC). Darparwyd y llythyr cyhoeddi, taflen wybodaeth ar gyfer arolwg staff ac ymarferwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhaliwyd chwe chyweliad yr arolygiaeth CRC yng Nghymru yn Gymraeg.
12. Rydym wedi cwblhau tri arolygiad thematig sydd wedi cynnwys meysydd yng Nghymru, sef 'Adsefydlu Pobl Ifanc, 'Rheoli Troseddwr Integredig' a 'Troseddau Pellach Difrifol'. Cynhaliwyd pedwar cyfweliad yn Gymraeg yn yr arolygiad 'Rheoli Troseddwr Integredig'.
13. Rydym wedi ymuno â Charchardai Ei Mawrhydi i arolygu carchardai oedolion, sef CEM Caerdydd a gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi i gynnal cynllun peilot ar Arolygu Trefniadau Amddiffyn Plant ar y Cyd (JICPA) yng Nghasnewydd. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfweliad yn Gymraeg gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
14. Cyfanswm y cyfweliadau arolygu a gynhaliwyd yn Gymraeg yn ystod 2019 yw deg sy'n ostyngiad ers 2018, pan gynhaliwyd dau arolygiad o wasanaethau troseddwr ifanc yng Nghymru.

Delwedd gyhoeddus y sefydliad

15. Rydym wedi adolygu ein logos ar gyfer Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a daethpwyd i'r casgliad nad oedd y logo, oedd yn cynnwys enw ein sefydliad yn Gymraeg a Saesneg, bellach yn addas gan ei fod yn anodd i'w ddarllen mewn rhai cyd-destunau, er enghraifft, wrth gyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol. Cyflwynwyd dau logo newydd, gan gynnwys logo Cymraeg ar gyfer pob adroddiad a deunydd cyfathrebu yn Gymraeg. Ysgrifennwyd at y Comisiynydd i'w hysbysu o'r newid i'n logo.
16. Mae ein bathodynau enwau yn ddwyieithog, felly hefyd cardiau busnes y Pennaeth Arolygu Thematig ac Arolygu ar y Cyd, yr Arolygwr sy'n bennaf gyfrifol am gynllun iaith Gymraeg Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Arolygwyr Cymraeg sy'n derbyn ffi.

17. Cyhoeddir adroddiadau ynglŷn â'n harolygiadau yng Nghymru ochr yn ochr â'i gilydd yn Gymraeg a Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad arolygu thematig ar y cyd yn ymwneud â Chymru a Lloegr, adroddiadau ar ddau wasanaeth troseddwr ifanc a dau wasanaeth prawf yng Nghymru. O ran yr arolygiadau hyn, roedd adroddiadau Cymraeg ar gael ar yr un pryd â'n hadroddiadau Saesneg. Caiff adroddiadau sy'n cael eu cyhoeddi eu hyrwyddo hefyd gyda theitl dwyieithog ar Twitter.
18. Gwnaethom rannu darnau perthnasol o'n hadroddiadau a gyhoeddwyd mewn ymateb i ymholiad gan swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â "pha mor dda y mae sefydliadau a arolygwyd yng Nghymru yn nodi ac yn ymateb i'r dewis o gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg."
19. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol ynglŷn ag arolygu gwasanaethau troseddwr ifanc yng Nghymru a Lloegr yn Gymraeg a Saesneg.
20. Fe wnaethom ystyried cyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd Prawf', ac 'Arolygiadau y Gwasanaethau Prawf 2018/19: Adroddiad Crynodeb' yn Gymraeg a Saesneg. Roedd y ffordd y cafodd yr adroddiad blynyddol ei lunio yn golygu bod ei gyhoeddi'n ddwyieithog yn gost ormodol. Rydym wedi dysgu o hyn ac wedi ymrwymo i sicrhau y bydd adroddiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg yn y dyfodol.

Deunydd cyfathrebu ehangach

21. Mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi wedi parhau i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu cymeradwy y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym wedi rhoi rhestr o dermau cyffredin i'n darparwr cyfieithu er mwyn helpu gyda chysondeb, a byddwn yn parhau i fonitro ansawdd y gwasanaeth hwn.
22. Mae ceisiadau am gyfweliadau Cymraeg i'r cyfryngau yn cael eu cyfeirio at ein uwch reolwr sy'n siarad Cymraeg. Cynhaliwyd dau gyfweliad radio Cymraeg ac un cyfweliad teledu Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.
23. Nid ydym wedi derbyn unrhyw alwadau neu ohebiaeth i'n swyddfeydd ym Manceinion neu Lundain drwy gyfrwng y Gymraeg ac nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â'n cynllun Iaith Gymraeg.

Hyfforddi a datblygu staff

24. Ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant penodol ynglŷn â'n Cynllun Iaith Gymraeg neu arolygu yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae pob aelod newydd o staff yn parhau i dderbyn, fel rhan o'r sesiynau cynefino, trosolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n cynnwys ein cyfrifoldebau a'n hymrwymiaadau o ran arolygu yng Nghymru.
25. Mae'r Arolygydd sy'n bennaf gyfrifol am ein cynllun Iaith Gymraeg wedi atgoffa bob aelod o staff ynglŷn â'u dyletswyddau o dan ein cynllun drwy gyhoeddi cyngor ac arweiniad yn ein bwletin staff.
26. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi parhau i gysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru drwy gwrdd â'r Gweinidog perthnasol a'r swyddogion sy'n gyfrifol am bolisi cyfiawnder a diogelwch cymunedol. Rydym hefyd wedi cynnal presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd 'cadw mewn cysylltiad' gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac Arolygiaethau partner, gan gynnwys cyswllt i hyrwyddo datblygiad trefniadau arolygu thematig ar y cyd yng Nghymru.

27. Mae ein ffordd ragweithiol o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cynnwys cyfrannu tystiolaeth at y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a chyswllt parhaus ag arweinwyr cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i wella ein dealltwriaeth o drefniadau datganoledig ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, fel y maent yn berthnasol i'n rôl yn arolygu gwasanaethau prawf a gwasanaethau troseddwr ifanc. I'r perwyl hwnnw, rydym wrthi'n cadarnhau trefniadau ar gyfer ein Cyfarwyddwr Strategaeth a'r Pennaeth Arolygu Thematig ac Arolygu ar y Cyd, i gwrdd â swyddogion perthnasol.

28. Rydym wedi ymgynghori ynglŷn â'n ffordd newydd o fynd i'r afael ag arolygiadau prawf ac arolygiadau ieuencid, ac ar y cyd â'n grŵp Amrywiaeth a Chynhwysiant, byddwn yn ceisio sicrhau bod ein fframwaith a'n rhaglen arolygu yn parhau i gyflawni gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Trefniadau'r dyfodol

29. Bydd Tony Kirk, Arolygydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, yn parhau i fod yn gyfrifol am ein cynllun iaith Gymraeg, gan adrodd i Brif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi.

A handwritten signature in black ink, consisting of a large, stylized 'O' followed by several loops and a long horizontal stroke.

Tony Kirk

Arolygydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Ar ran

Justin Russell

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi